HEDDLU GWENT POLICE

Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

Seiliedig ar 31 Mawrth 2022

2021 | 2022

Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU - SEILIEDIG AR 31 MAWRTH 2022

Mae'n ofynnol bod sefydliadau gyda mwy na 250 o gyflogeion yn cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol:

- y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau fesul awr
- y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau fesul awr
- y bwlch cyflog bonws cymedrig rhwng y rhywiau
- y bwlch cyflog bonws canolrifol rhwng y rhywiau
- cyfran y gwrywod a benywod sy'n derbyn taliadau bonws
- cyfran y gwrywod a benywod ym mhob chwartel cyflog

Yn ogystal, mae'n rhaid i sefydliadau gyhoeddi adroddiad ynglŷn â'u dadansoddiad. Mae'n ofynnol ein bod yn ei gyhoeddi ar ein gwefan a'i gyflwyno i'r llywodraeth erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, sef 30 Mawrth 2023.

Mewn cysylltiad â'r dadansoddiad a wnaed, nifer y swyddogion heddlu a staff heddlu 'perthnasol' oedd 2,337 a oedd yn cynnwys 1,091 o fenywod a 1,246 o ddynion ar 31 Mawrth 2022 (o'i gymharu â 1,052 o fenywod a 1,188 o ddynion y flwyddyn flaenorol ar 31 Mawrth 2021).

Dim ond un ffigwr ar gyfer holl staff sefydliad y gellir ei ddarparu i'w gyhoeddi ar wefan y llywodraeth, fodd bynnag, rydym wedi edrych ar y ffigyrau bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer swyddogion heddlu a staff heddlu sy'n cael eu rheoli gan delerau ac amodau a threfniadau cyflog gwahanol hefyd.

BWLCH CYFLOG HOLL SWYDDOGION A STAFF

Y bwlch cyflog cymedrig

I gyfrifo ffigwr cymedrig gwnaethom adio'r holl ffigyrau a rhannu'r canlyniad gyda faint o ffigyrau a oedd ar y rhestr.

Mae'r ffigwr cymedrig **8.7% yn is** i fenywod, sy'n welliant o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

2021 = 10.8% yn is
2020 = 11.0% yn is

Y bwlch cyflog canolrifol (h.y. y pwynt canol)

I gyfrifo'r canolrif gwnaethom restru'r holl ffigyrau yn ôl trefn rifol ac yn y cyfrifiad hwn y canolrif yw'r ffigwr yn y canol.

Mae'r canolrif **12.9% yn is** i fenywod sydd yn welliant sylweddol ar y ddwy flynedd flaenorol.

2021 = 21.5% yn is
2020 = 20.3% yn is

TALIADAU BONWS

Taliadau bonws cymedrig

Mae'r ffigwr hwn yn dangos y gwahaniaeth rhwng y taliadau bonws cymedrig a dderbynnir gan gyflogeion gwrywaidd a benywaidd perthnasol. Derbyniodd 8 swyddog heddlu a 1 staff heddlu daliad bonws (6 dyn, pob un yn swyddog heddlu a 3 menyw - 2 swyddog heddlu ac 1 staff heddlu) yn ystod Blwyddyn Ariannol 2021-22

Mae taliad bonws cymedrig menywod **45.1% yn is** na dynion sy'n waeth o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

2021 = 40.0% yn uwch
2020 = 6.2% yn is

Taliadau bonws canolrifol

Mae'r ffigwr hwn yn dangos y gwahaniaeth rhwng y taliadau bonws canolrifol a dderbynnir gan gyflogeion gwrywaidd a benywaidd perthnasol. Roedd y taliad bonws canolrifol i fenywod **33.3% yn is** na dynion yn 2021-22 sy'n waeth o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

2021 = 33.3% yn uwch
2020 = 0.0%

Pwy dderbyniodd daliadau bonws?

0.27% o fenywod (3 allan o 1,091) **0.48%** o ddynion (6 allan o 1,246)

2021 = Derbyniodd 0.57% o fenywod a 0.67% o ddynion daliadau bonws
2020 = Derbyniodd 1.0% o fenywod a 3.9% o ddynion daliadau bonws



CHWARTELI CYFLOG HOLL SWYDDOGION A STAFF

Mae'r rhain yn amlinellu faint o ddynion a menywod sydd ym mhob chwartel o gyflogres Heddlu Gwent. Mae'r chwartel uchaf yn cynrychioli'r bobl sy'n ennill y cyflogau uchaf, ac mae'r chwartel isaf yn cynrychioli'r bobl sy'n ennill y cyflogau isaf.

CHWARTELI CYFLOG	2022	2022	2021	2021	2020	2020
	% BENYW	% GWRYW	% BENYW	% GWRYW	% BENYW	% GWRYW
Chwartel Uchaf	29.8	70.2	27.7	72.3	26.9	73.1
Chwartel Canol Uwch	50.9	49.1	49.5	50.5	45.4	54.6
Chwartel Canol Is	52.2	47.8	53.4	46.6	53.6	46.4
Chwartel Isaf	53.8	46.2	57.3	42.7	59.4	40.6

Mae nifer y benywod yn y chwartel uchaf a'r chwartel canol uwch wedi cynyddu eto eleni ac wedi gostwng eto yn y chwartel canol is a'r chwartel isaf, ac mae hyn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol.

HOLL SWYDDOGION HEDDLU YN UNIG

Nifer y swyddogion heddlu 'perthnasol' oedd 1,389 a oedd yn cynnwys 487 o fenywod a 902 o ddynion ar 31 Mawrth 2022.

Cymedrig

I gyfrifo ffigwr cymedrig gwnaethom adio'r holl ffigyrau a rhannu'r canlyniad gyda faint o ffigyrau a oedd ar y rhestr.

Mae'r ffigwr cymedrig **5.4% yn is** i fenywod, sy'n welliant ar y flwyddyn flaenorol.

2021 = 6.7% yn is
2020 = 5.1% yn is

Canolrifol

I gyfrifo'r canolrif gwnaethom restru'r holl ffigyrau yn ôl trefn rifol ac yn y cyfrifiad hwn y canolrif yw'r ffigwr yn y canol.

Mae'r canolrif **8.8% yn is** i fenywod sy'n waeth o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

2021 = 0.3% yn is
2020 = 0.1% yn is

TALIADAU BONWS

Taliadau bonws cymedrig

Derbyniodd 8 o swyddogion daliad bonws (6 gwryw a 2 fenyw).

Mae'r taliad bonws cymedrig **37.8% yn is** i fenywod sy'n waeth o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

2021 = 0.0%
2020 = 16.6% yn is na dynion

Taliadau bonws canolrifol

Mae'r ffigwr hwn yn dangos y gwahaniaeth rhwng y taliadau bonws canolrifol a dderbynnir gan gyflogeion gwrywaidd a benywaidd perthnasol. Mae'r taliadau bonws canolrifol **33.3% yn is** i fenywod sy'n waeth o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

2021 = 0.0%
2020 = 33.0% yn is

Pwy dderbyniodd daliadau bonws?

Derbyniodd 2 fenyw (0.04%) a 6 o ddynion (0.7%) daliadau bonws

2021 = derbyniodd 0.6% o fenywod a 0.8% o ddynion daliadau bonws
2020 = derbyniodd 2.1% o fenywod a 4.1% o ddynion daliadau bonws

CHWARTELI CYFLOG SWYDDOGION HEDDLU

Mae'r rhain yn amlinellu faint o swyddogion heddlu gwrywaidd a benywaidd sydd ym mhob chwartel o gyflogres Heddlu Gwent. Mae'r chwartel uchaf yn cynrychioli'r bobl

sy'n ennill y cyflogau uchaf, ac mae'r chwartel isaf yn cynrychioli'r bobl sy'n ennill y cyflogau isaf.

CHWARTELI CYFLOG SWYDDOGION	2022	2022	2021	2021	2020	2020
	% BENYW	% GWRYW	% BENYW	% GWRYW	% BENYW	% GWRYW
Chwartel Uchaf	25.4	74.6	27.7	72.3	25.8	74.2
Chwartel Canol Uwch	40.6	59.4	30.9	69.1	28.5	71.5
Chwartel Canol Is	43.9	56.1	38.4	61.6	39.3	60.7
Chwartel Isaf	38.3	61.7	44.9	55.1	41.1	57.9

Mae nifer y swyddogion benywaidd yn y chwartel uchaf wedi gostwng ychydig, ond mae'r chwartel canol uwch a'r chwartel canol is wedi cynyddu ers yr adroddiad diwethaf.

Mae nifer y swyddogion benywaidd yn y chwartel canol is wedi gostwng ers yr adroddiad diwethaf.

HOLL STAFF YR HEDDLU YN UNIG

Nifer y staff heddlu a oedd yn 'berthnasol' oedd 948 a oedd yn cynnwys 604 o fenywod a 344 o ddynion ar 31 Mawrth 2022.

Cymedrig

I gyfrifo ffigwr cymedrig gwnaethom adio'r holl ffigyrau a rhannu'r canlyniad gyda faint o ffigyrau a oedd ar y rhestr.

Mae'r ffigwr cymedrig **5.5% yn is** i fenywod sy'n welliant o'i gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf.

2021 = 7.5% yn is na dynion
2020 = 8.4% yn is na dynion

Canolrifol

I gyfrifo'r canolrif gwnaethom restru'r holl ffigyrau yn ôl trefn rifol ac yn y cyfrifiad hwn y canolrif yw'r ffigwr yn y canol.

Mae'r canolrif **2.2% yn is** i fenywod, sy'n welliant o'i gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf

2021 = 4.5% yn is na dynion
2020 = 4.7% yn is na dynion

TALIADAU BONWS

Taliadau bonws cymedrig

Mae taliad bonws cymedrig menywod 100.0% yn uwch na dynion ar gyfer 2022 gan mai dim ond un aelod benywaidd o staff a dderbyniodd daliad bonws.

2021 – 20.0% yn is

2020 - Dim ond 1 aelod o staff yr heddlu (benywaidd) a dderbyniodd daliad bonws a oedd yn £500 yn ystod 2019-20.

Taliad bonws canolrifol

Mae'r ffigwr hwn yn dangos y gwahaniaeth rhwng y taliadau bonws canolrifol a dderbynnir gan gyflogeion gwrywaidd a benywaidd perthnasol. Roedd y taliad bonws canolrifol i fenywod 100% yn uwch na dynion yn 2021-22.

2021 = roedd menywod 100% yn uwch na dynion
2020 = roedd menywod 100% yn uwch na dynion

Pwy dderbyniodd daliad bonws?

Derbyniodd 1 fenyw (0.2%) ac ni dderbyniodd unrhyw ddynion (0.0%) daliadau bonws

2021 = derbyniodd 0.5% o fenywod a 0.3% o ddynion daliadau bonws
2020 = derbyniodd 0.2% o fenywod a 0% o ddynion daliadau bonws

CHWARTELI CYFLOG HOLL STAFF YR HEDDLU

Mae'r rhain yn amlinellu faint o staff heddlu gwrywaidd a benywaidd sydd ym mhob chwartel o gyflogres Heddlu Gwent.

CHWARTELI CYFLOG STAFF HEDDLU	2022	2022	2021	2021	2020	2020
	% BENYW	% GWRYW	% BENYW	% GWRYW	% BENYW	% GWRYW
Chwartel Uchaf	56.0	44.0	60.2	39.8	61.0	39.0
Chwartel Canol Uwch	67.4	32.6	58.1	41.9	60.1	30.9
Chwartel Canol Is	56.7	43.3	63.4	36.6	63.1	36.9
Chwartel Isaf	73.2	26.8	74.0	26.0	78.6	21.4

Benywod sydd fwyaf amlwg ym mhob un o chwarteli cyflog staff yr heddlu.

Mae nifer y benywod wedi gostwng ychydig yn y chwartel uchaf, y chwartel canol is a'r chwartel isaf.

Mae'r chwartel canol uwch wedi cynyddu ychydig.

CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

Ers cyhoeddi ein Hadroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau'r llynedd

- Mae nifer y swyddogion heddlu benywaidd yn y chwartel uchaf wedi gostwng ychydig, ond wedi cynyddu yn y chwartel canol uwch a'r chwartel canol is eleni. Mae'r chwartel isaf wedi gostwng, sy'n ganlyniad cadarnhaol.
- Mae nifer y staff heddlu benywaidd yn y chwartel uchaf, y chwartel canol is a'r chwartel isaf wedi gostwng eto, ac wedi cynyddu yn y chwartel canol uwch.
- Mae'r bwlch cyflog cymedrig ar gyfer swyddogion heddlu a staff heddlu benywaidd wedi parhau i wella eleni.
- Mae'r bwlch cyflog canolrifol ar gyfer staff heddlu benywaidd wedi parhau i wella eleni, ond mae cynnydd yn y bwlch ar gyfer swyddogion heddlu benywaidd.
- Mae'r taliad bonws cymedrig ar gyfer swyddogion heddlu benywaidd wedi cynyddu eleni. Mae'r taliad bonws cymedrig staff heddlu benywaidd 100% yn uwch na staff gwrywaidd gan mai dim ond un fenyw a dderbyniodd daliad bonws.
- Mae'r taliad bonws canolrifol ar gyfer swyddogion heddlu benywaidd wedi cynyddu eleni. Mae'r taliad bonws canolrifol ar gyfer staff heddlu benywaidd 100% yn uwch na staff gwrywaidd gan mai dim ond un fenyw a dderbyniodd daliad bonws.

Mae Heddlu Gwent wedi parhau i ddatblygu ac ysgogi amrywiaeth a chynhwysiant ledled y llu. Mae'r tîm gweithredu cadarnhaol wedi tyfu o ddau weithiwr amser llawn i dri gweithiwr ac mae cydgysylltydd gweithredu cadarnhaol wedi cael ei benodi. Yn ogystal rydym newydd benodi swyddog gweithredu cadarnhaol arall er mwyn parhau i ysgogi amrywiaeth. Rydym yn cynnig rhaglen gweithredu cadarnhaol bwrpasol yn awr ar gyfer benywod sy'n ymgeisio i fod yn swyddogion heddlu a swyddogion cefnogi cymuned. Rydym wedi cynnal nifer o sesiynau gyrfa ar gyfer benywod yn unig sydd wedi bod yn llwyddiannus ac wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn. Mae'r rhaglen gweithredu cadarnhaol yn cynnwys sesiynau pwrpasol, arweiniad, cymorth a gwybodaeth ynglŷn â'r broses sifftio, y ganolfan asesu, cyfweliadau ffug a phrofion ffitrwydd ffug.

Mae canran y swyddogion benywaidd wedi gostwng ychydig o 35.71% i 34.82% rhwng mis Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Mae'r gyfradd ar gyfer swyddogion heddlu benywaidd sy'n ymuno â'r llu wedi gostwng yn ystod y flwyddyn, ond rydym yn parhau i hyrwyddo plismona i fenywod trwy ddigwyddiadau ar gyfer benywod yn unig a thrwy ein hymgyrchoedd brandio a marchnata. Rydym yn bwriadu creu llwybr mynediad uniongyrchol i fod yn dditectif gan fod mwy o ddiddordeb gan fenywod yn genedlaethol mewn ymuno trwy gyfrwng y llwybr hwn.

Rydym wedi ail-frandio ein delweddau a'n deunyddiau marchnata i ganolbwyntio ar ddenu benywod ac rydym wedi defnyddio uwch swyddogion benywaidd i hybu benywod mewn plismona. Mae'r ffaith bod gennym Brif Gwnstabl a Dirprwy Brif

Gwnstabl benywaidd wedi annog benywod i ymgeisio ac i drosglwyddo o heddluoedd eraill.

Rydym wedi gweithio gydag adrannau arbenigol fel Arfau Tanio, Cymorth Ardal a'r Adran Cŵn i hyrwyddo benywod mewn adrannau lle mae dynion wedi bod yn fwy amlwg yn hanesyddol. Mae nifer y ditectifs ar draws y llu yn dangos cydbwysedd rhwng y rhywiau, sy'n gadarnhaol iawn gan fod hwn yn faes a oedd â nifer anghymesur o ddynion ynddo ychydig flynyddoedd yn ôl.

Rydym yn cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb ym mhob proses dyrchafu i sicrhau nad oes unrhyw anghydraddoldeb yn erbyn benywod. Mae benywod yn dueddol o berfformio'n well mewn cyfweliadau ar draws y rhengoedd. Mae gennym grŵp cymorth HeForShe cryf gydag eiriolwyr gwrywaidd yn cefnogi datblygiad benywod. Rydym wedi cael cymorth gan y grŵp HeForShe cyn ac ar ôl byrddau dyrchafu. Mae ymgeiswyr benywaidd nad oeddent yn llwyddiannus a rhai na chafodd gefnogaeth gan eu rheolwr llinell wedi cael cynnig cymorth a mentora trwy'r grŵp HeForShe.

Mae gennym Rwydwaith Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau cadarn a gweithgar sydd â phresenoldeb amlwg o'r adran Adnoddau Dynol hefyd. Mae'r grŵp yn cydweithio gyda'r llu i godi proffil yr holl fenywod yn y llu. Mae'n rhoi cefnogaeth gyda materion o bryder, datblygiad gyrfa a lles. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r grŵp wedi bod yn brysur yn cefnogi benywod trwy ddarparu mentora o fewn y llu, rhoi cymorth i fenywod gyda phroblemau iechyd megis y menopos ac endometriosis. Mae gennym dîm lles cadarn o fewn yr adran Adnoddau Dynol, sy'n cefnogi menywod gyda chyflyrau iechyd penodol i fenywod.

Rydym yn croesawu gweithio hyblyg a gweithio rhan amser ac yn hybu'r opsiynau hyn o fewn y llu. Mae llawer o swyddi staff yr heddlu y gellir eu cyflawni trwy weithio'n hyblyg a sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a theulu. Mae llawer o swyddi y gellir eu cyflawni trwy weithio'n ystwyth hefyd gan roi mwy o hyblygrwydd a gwell cydbwysedd rhwng gwaith a theulu. Rydym wedi lansio 'babanod Gwent' sef grŵp cymorth cymheiriaid ar gyfer rhieni newydd i helpu i gadw cyflogeion mewn cysylltiad â'u bywydau proffesiynol a theulu Heddlu Gwent.

Mae Addewid Cydraddoldeb 'Pedwar Heddlu Cymru' wedi cael ei roi ar waith sy'n cynnwys yr wyth pwynt canlynol:

1. *Bydd pob llu yn sicrhau ymateb prydlon a chadarn i unrhyw hysbysiad am aflonyddu rhywiol.*
2. *Bydd pob llu yn ymrwymo i baneli cyfweld o rywiau cymysg ac yn sicrhau bod pob aelod o baneli cyfweld wedi derbyn hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod.*
3. *Bydd pob llu yn ymrwymo i sicrhau cynrychiolaeth deg o ran y rhywiau mewn cyfleoedd am ddyrchafiad ar bob rheng/gradd ac ym mhob swydd, gan annog cefnogaeth a gweithredu cadarnhaol lle mae menywod yn cael eu tangynrychioli ar y cam cyfweld.*
4. *Bydd pob llu yn monitro'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y sefydliad ac yn weithredol yn annog a chefnogi gweithredu cadarnhaol lle mae ei angen oherwydd cynrychiolaeth annigonol mewn rhengoedd/graddau a/neu swyddi.*

5. *Bydd pob llu yn ymrwymo i annog prosesau teg o ran gweithio hyblyg a rhannu swyddi, gan sicrhau y gellir rhagdybio bod pob swydd wag gan gynnwys rhai goruchwyliol yn addas ar gyfer gweithio hyblyg oni bai y gwneir achos sefydliadol cadarn i'r gwrthwyneb.*
6. *Bydd pob llu yn neilltuo Prif Swyddog ar gyfer Rhwydwaith Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau a fydd yn cyfarfod â'r Cadeirydd yn rheolaidd ac yn galluogi aelodau i gyflawni tasgau sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith tra byddant ar ddyletswydd.*
7. *Bydd pob llu yn bresennol mewn digwyddiadau Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau.*
8. *Bydd pob llu yn adolygu deunyddiau'r adran Cyfathrebu Corfforaethol a systemau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn y sefydliad.*

Bydd Bwrdd Strategaeth Pobl y llu yn adolygu'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cwblhau gan aelodau ychwanegol y tîm Gweithredu Cadarnhaol i sicrhau bod y sefydliad yn gwneud y gwelliannau cywir.